

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.30 o'r gloch, ddydd Mercher, Tachwedd 26 er budd Cronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Bydd amrywiaeth o stondinau, ac arnynt nwyddau Nadolig. Bydd y byrddau gwerthu arferol ar gyfer bric-a-brac, llyfrau, cacennau ac ati.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y byrddau, byddem yn falch iawn ohonynt er mwyn sicrhau llwyddiant y Ffair.

Pris mynediad yn cynnwys paned a chacen fydd £1.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Tachwedd 5: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 9: Gwasanaeth Sul y Cofio wrth y Gofeb **am 9.15 o'r gloch.**

Dydd Sul, Tachwedd 9: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 2

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 9

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

Tachwedd 16

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

CAPEL COCH A NANT PADARN
Nos Fercher, Tachwedd 5: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 9: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 9: Gwasanaethir am 2.00 o'r goch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Nos Lun, Tachwedd 3: Cyfarfod Blynnyddol Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch.

Dydd Gwener, Tachwedd 7: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 2

10.00 a.m. - Y Parchg Glenys Jones
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas
Dim Ysgol Sul

Tachwedd 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Tachwedd 16

10.00 a.m. - Oedfa yng ngofal
Colin Jones a Gareth Jones
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal aelodau
Parti Bytholwyrdd



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 611 - Dydd Sul, 02 Tachwedd, 2014

Mis newydd

Mi enillon ni awr y Sul dwytha wrth droi'r cloc nôl cyn y gaeaf. Ond bu ond y dim i mi gollu mis heddiw wrth i mi ddod yn agos at droi'r calendr fis ymlaen.

Dros y *Pass* i gapel Nantybenglog y byddaf yn mynd y pnaawn yma. Ond i rywle arall yr awn i pe na fyddwn wedi cael galwad ffôn fore ddoe. Roeddwn wedi edrych ar fy nyddiadur ddechrau'r wythnos ac wedi gweld enw capel arall gyferbyn â Sul cynta'r mis. Ond wedi'r alwad ffôn o Nantybenglog ddoe, mi sylweddolais fy mod am ryw reswm wedi edrych ar Sul cyntaf Rhagfyr yn hytrach na Sul cyntaf Tachwedd.

Ac felly, mae'n dda gen i ddeud y byddaf yn mynd i'r capel cywir y pnaawn yma ac na fyddaf, wedi'r cwbl, wedi colli mis. Ac ydi, mae Tachwedd bron heb ei gyffwrdd o hyd. Ac o'i gael yn ôl, fel petai, does ond gobeithio y gallaf wneud y gorau ohono. Heddiw, er enghraifft, yw'r cyntaf o bum Sul sydd yn Nhachwedd eleni, a hynny'n golygu y bydd i mi fwy o gyfleoedd nag arfer i gyhoeddi gras Duw yn yr Efengyl. A chan nad wyf wedi 'colli' mis Tachwedd, mi gaf fynd i Gyfarfod Blynnyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug nos yfory wedi'r cwbl. Ac mi gaf fynd i Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth sy'n aildechrau nos Fercher yr wythnos hon. Beth am ddod atom i'r ddau gyfarfod? A chaf hefyd fynd i'r gwahanol gyfarfodydd eraill sydd i'w cynnal yn ystod y mis nesaf yma.

Ac os byw ac iach, caf fel chithau fis cyfan arall o fwynhau bendithion Duw. Mae'r hyn a welsom o ffyddlondeb a haelioni Duw cyn hyn yn sail digonol dros greu y cawn brofi bendithion fyrdd, beth bynnag a ddigwydd, y mis nesaf hwn. Boed i Dduw roi i ni bob dydd ei ras i'w derbyn a'u cydnabod.

A boed i ras Duw ein galluogi i fod yn bobl ffyddlon iddo ar hyd y mis nesaf hwn. Ambell dro, yng nghanol helbul byd, gawsoch chi eich temtio i gau eich llygaid ac anwybyddu'r cyfan? Feddylioch chi erioed y byddai'n braf osgoi ambell i fis yn y gobaith y bydd gwahanol drafferthion wedi diflannu cyn iddo ddod i ben? Ond mae'r mis Tachwedd hwn gennym eleni, a chawn ni ddim cau ein llygaid. Be' ddaw o'r argyfwng Ebola? Be' ddigwyddith yn Burkina Faso? Be' feddyliwn ni o'r awgrym na ddylid gwneud unrhyw beth i helpu mewnfudwyr i Brydain pe digwyddai iddyn nhw fod mewn peryg ar y môr wrth geisio croesi'r Sianel?

Fe allwn gau ein llygaid, neu fe allwn dreulio'r mis nesaf yn meddwl am ein byd a'i broblemau; yn gweddio dros bobl; yn galw ar y Llywodraeth i weithredu cyfiawnder a dangos tosturi; yn gweini ar ein gilydd yng nghariad Crist; yn addoli a chenhadu; yn ceisio perswadio pobl i dderbyn Iesu Grist yn Arglwydd a Gwardwr; yn mwynhau'r bywyd Cristnogol o ddilyn Crist a'i addoli. Trysorwn bob eiliad a phob dydd, a phrynwn yr amser er mwyn gwasanaethu'r Iesu dros y mis nesaf.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Byddaf fi'n arwain y ddwy oedfa yn Neiniolen, am 10.00 a 5.00 o'r gloch, a bydd yr Ysgol Sul yno am 10.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Glenys Jones, Pwllheli. Dyma'r tro cyntaf iddi fod yma gyda ni ers iddi gael ei hordeinio yn weinidog i'r eglwys Annibynnol ym Mhenlan, Pwllheli y mis diwethaf. Dymunwn bob bendith iddi yn ei gwaith ym Mhenlan, a diolch am ei gwasanaeth heddiw eto. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Canon Idris Thomas, Deiniolen; a diolchwn iddo yntau am ei wasanaeth unwaith eto.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Tachwedd 3.

Gwahoddir chi oll i'r cyfarfod hwn a fydd yn adrodd am waith Efe dros y flwyddyn.

Mae'r cyfarfod hwn yn gyfle bob blwyddyn i adrodd am waith Efe, ac yn gyfle i'r eglwys ddangos eu cefnogaeth i'r Cynllun ac i Andrew Settattree, ein gweithiwr ieuencid.

Rasio

Diolch i Andrew am drefnu sesiwn cartio yng Nghanolfan Cartio Dan Do Redline yng Nghaernarfon ar gyfer hogiau hynaf CIC ddydd Llun diwethaf. Cafwyd rasio brwd a llongyfarchiadau i'r enillydd, Iolo. Cawsom ginio ym McDonald's ar ôl yr hwyl ar y cwrs rasio.

CIC

Bydd cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch wythnos i nos Wener, sef nos Wener, Tachwedd 14, am 7.00 o'r gloch.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settattree, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Tachwedd 7.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus wrth gwrs.

Dosbarth Beiblaidd

Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn ail gychwyn nos Fercher, Tachwedd 5. Bydd yn gyfle da i rai newydd ohonoch ddod i'r cyfarfod. Byddai'n dda gweld rhagor yn dod i fwynhau'r gymdeithas arbennig sydd ynddo. Dowch, da chi.

Cymdeithas Undebol

Mr Geraint Jones, Trefor, oedd y gŵr gwadd yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen nos Lun diwethaf. Cafwyd sgwrs am y crwydryn John Preis, a oedd yn hanu o Gapel Uchaf, ac y cafwyd ei hanes yn y gyfrol ddiweddaraf o waith Geraint. Roedd yn braf cael estyn croeso i'w wraig, Jina, a fu'n byw yng Nghlwt y Bont am gyfnod. Diolchwyd iddo gan Mr John Ll Williams.

Bocsys Nadolig

Diolch yn fawr iawn am y bocsys sydd wedi cyrraedd yn barod at Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd.

Fel y soniwyd yr wythnos ddiwethaf, mae'r dyddiad cau wedi ei ymestyn i ddydd Sul, Tachwedd 17, sef pythefnos i heddiw.

Dowch â'r bocsys neu'r rhoddion i'r capel neu yma i Gilfynydd, Llanberis erbyn hynny os gwelwch yn dda er mwyn i mi fynd â'r cyfan i Wrecsam yr wythnos honno.

Cardiau Nadolig

Roedd cardiau Nadolig Cyngor Ysgolion Sul i'w cael yn y cyfarfod yn Salem Caernarfon nos Fercher. Maent ar werth am £2 y pecyn gan Valerie Jones, Bryn Gelli gyda'r elw at Ysgol Sul, Capel Coch. Gellwch ffonio 871150 i archebu pecynnau o gardiau.

Mae cardiau ar werth yn Neiniolen gan

Mrs Jane Thorman Jones am £2 y pecyn gyda'r elw at Ysgol Sul Deiniolen.

Agor y Llyfr

Cynllun cymharol newydd sy'n galluogi eglwys i gynnig gwasanaeth i ysgolion cynradd yw 'Agor y Llyfr'.

Mae'n syniad syml iawn: mae tim o bobl yn darllen stori o fersiwn syml o'r Beibl i'r plant yn y gwasanaeth boreol. Mae'r storiâu yn cael eu darllen a'u cyflwyno ar ffurf actio syml. Does dim ymgais yn cael ei gwneud i esbonio'r stori o gwbl: dim ond adrodd y stori, a gadael i'r stori 'siarad drosti ei hun'.

Mae gan y Parchg Carol Roberts dim o bobl sy'n cyflwyno 'Agor y Llyfr' yn Ysgol Cwm-y-glo bob pythefnos ers ychydig fisoedd. Mae hi'n awyddus iawn i allu gwneud peth tebyg mewn ysgolion eraill yn yr ardal.

Y gobaith i ddechrau yw cael cyfle i fynd ag 'Agor y Llyfr' i Ysgol Gwaun Gynfi. Byddai angen tim o ryw 6 o bobl i wneud hynny, ac mae'n gobeithio y gall rhai o aelodau'r capeli gydweithio ag aelodau Eglwys Crist, Llandinorwig.

Dim ond cadw at y sgript sydd wedi ei baratoi fydd ei angen. Byddai angen bod ar gael am ryw awr un bore bob pythefnos ar gyfer y gwasanaeth yn yr ysgol, a hefyd ryw awr yn ystod yr wythnos i ymarfer ar ei gyfer.

Cawn ragor o wybodaeth yn fuan, ond am y tro, os yw'r syniad o fod yn rhan o'r tim yn apelio at unrhyw un ohonoch, rhowch wybod i mi.

Trefnir cyfarfod yn fuan gobeithio i roi mwy o wybodaeth. Mae'n beth newydd, ac mae'n amlwg bod y bobl sy'n rhan o'r tim yng Nghwm-y-glo yn mwyhau gwasanaethu'r ysgol trwy gyflwyno straeon y Beibl i'r plant.